



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion a wnaed yn Adroddiad Grŵp Tasglu 20 mya

Lee Waters

Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth



Rhagair

Mae'n bleser gennyf ymateb i'r argymhellion a wnaed gan Grŵp Tasglu 20mya.

Mae gostwng cyflymder traffig yn arwain at lai o ddamweiniau, yn enwedig damweiniau i blant, ac yn creu amodau da ar gyfer teithio llesol.

Bydd cyflwyno terfyn cyflymder diodyn o 20mya ar ffyrdd cyfyngedig yng Nghymru yn rhan o gyfres o fesurau trafndiaeth a fydd yn helpu i greu manau cyhoeddus sy'n hyrwyddo iechyd a llesiant pobl. Bydd yn rhoi rheolaeth yn ôl i gymunedau ledled Cymru, i reoli a gwella eu hamgylchedd ar gyfer cenedlaethau heddiw ac yfory.

Rwy'n ddiolchgar i Phil Jones a gadeiriodd y Grŵp Tasglu, ynghyd â holl aelodau'r grŵp sydd wedi cyfrannu at yr Adroddiad hwn ac wedi helpu i'w lunio.

Lee Waters AS, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

Cyflwyniad

Roedd y rhagdybiaeth i gyflwyno terfyn cyflymder diofyn o 20mya mewn ardaloedd preswyl yn un o'r ymrwymadau ym maniffesto'r Prif Weinidog ac mae'n parhau'n flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Sefydlwyd Grŵp Tasglu dan gadeiryddiaeth Phil Jones, Cynllunydd Trafnidiaeth annibynnol gyda chwmni Phil Jones Associates yn dilyn trafodaeth mewn Cyfarfod Llawn ym mis Mai 2019 lle cafwyd cefnogaeth drawsbleidiol i gyflwyno terfyn cyflymder diofyn o 20mya.

Roedd y Grŵp Tasglu yn cynnwys cynrychiolaeth o ystod eang o sefydliadau o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector a oedd â diddordeb mewn cyflwyno terfyn cyflymder o 20mya. Mae'r croestoriad eang o randdeiliaid ac arweinwyr annibynnol yn y Grŵp Tasglu wedi rhoi hygyrdded i ganlyniadau ac argymhellion yr adroddiad.

Sefydlwyd y Grŵp Tasglu i ymchwilio i'r rhagosodiad y dylid cyflwyno terfyn diofyn o 20mya mewn ardaloedd preswyl, gan fod gostwng cyflymder traffig yn arwain at lai o wrthdrawiadau ac yn sicrhau cymunedau mwy cydlynus a diogel. Mae ei Adroddiad yn nodi'r camau gweithredu ymarferol ar gyfer cyflwyno terfyn diofyn o 20mya mewn ardaloedd preswyl, ac mae'n rhoi'r disgrisiwn i awdurdodau lleol gadw terfyn cyflymder o 30mya ar brif lwybrau allweddol

Caiff y dull presennol o gyflwyno terfyn o 20mya ei weithredu drwy Orchmynion Rheoleiddio Traffig ac er gwaethaf y cymorth ariannol sylweddol yr ymrwymwyd iddo dros y blynyddoedd diwethaf i gyflwyno terfynau cyflymder o 20mya yng Nghymru, dim ond ar tua 1% o'r rhwydwaith ffyrdd y ceir terfyn cyflymder o 20mya. Drwy gyflwyno terfyn diofyn o 20mya gan ddefnyddio'r pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, gellir ehangu'r terfynau 20mya yn gyflym ac yn gost effeithiol.

Yn amodol ar rai amheuon, gall Senedd Cymru ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol, i gyflwyno terfyn cyflymder diofyn cenedlaethol o 20mya ar ffyrdd cyfyngedig yng Nghymru. Mae ffordd yn Ffordd Gyfyngedig os yw'n cynnwys system o oleuadau stryd a ddarperir gan lampau sydd wedi'u gosod heb fod yn fwy na 200 llath ar wahân.

Bydd y fenter hon yn rhoi'r disgrisiwn i awdurdodau lleol gadw terfyn cyflymder o 30mya (neu bennu terfyn cyflymder gwahanol) ar Ffordd Gyfyngedig lle bydd hynny'n briodol yn eu barn nhw.

Ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhellion Grŵp Tasglu 20mya

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn holl argymhellion y Grŵp Tasglu ar gyfer pob un o'r categorïau canlynol:

- Cyfreithiol a Pholisi,
- Eithriadau,
- Gorfodi,
- Peirianeg,
- Monitro a Gwerthuso

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r ymateb i bob un o'r argymhellion a wnaed gan y Grŵp Tasglu a chânt eu datblygu gan Lywodraeth Cymru.

Categori Argymhelliad	Rhif	Argymhelliad o Adroddiad y Grŵp Tasglu	Ymateb Llywodraeth Cymru
Cyfreithiol a Pholisi	1.	Dylai Gweinidogion Cymru lunio is-ddeddfwriaeth o dan Adran 81(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 i leihau'r uchafswm cyflymder cyfreithlon y gall cerbyd modur deithio ar ffordd	Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu cynnal ymgynghoriad ar gynigion i lunio gorchymyn o dan adran 81(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 i leihau'r terfyn cyflymder

		gyfyngedig yng Nghymru i 20mya.	cyffredinol ar ffyrdd cyfyngedig i 20mya, yn cynnwys ymgynghoriad ar newidiadau i ddeddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig.
	2.	Dylai Gweinidogion Cymru lunio is-ddeddfwriaeth o dan Adran 65(3) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 i roi cyfarwyddiadau cyffredinol i awdurdodau lleol ar leoliad priodol arwyddion terfyn cyflymder, o ystyried y newid yn y terfyn cyflymder diodyn ar ffyrdd cyfyngedig.	Bydd Gweinidogion Cymru yn adolygu Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016 gyda'r bwriad o wneud unrhyw ddiwygiadau sy'n ofynnol os caiff y terfyn cyflymder cyffredinol ar ffyrdd cyfyngedig ei leihau.
	3.	Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r ddeddfwriaeth berthnasol er mwyn nodi sut y gellir symleiddio proses Gorchmynion Rheoleiddio Traffig yng Nghymru.	Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu effaith y rheoliadau gorchymyn rheoleiddio traffig dros dro (gweithdrefn) arfaethedig, a fydd yn weithredol yn ystod cyfnod pandemig Coronafeirws, gyda'r bwriad o benderfynu a oes angen gwneud unrhyw newidiadau parhaol i'r broses.
	4.	Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Adran Drafnidiaeth i ddiwygio polisiau a dogfennau canllaw perthnasol y DU ac yn benodol Reolau'r Ffordd Fawr i hysbysu'r rhai sy'n defnyddio'r	Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Adran Drafnidiaeth mewn perthynas â Rheolau'r Ffordd Fawr a bydd hefyd yn gweithio gyda'r DVSA i drafod unrhyw

		ffyrdd o'r terfyn cyflymder diofyn cenedlaethol o 20mya ar ffyrdd yng Nghymru sydd â goleuadau stryd.	newidiadau perthnasol i brofion gyrru a fydd yn ofynnol yn sgil gostyngiad i'r terfyn cyflymder cyffredinol ar gyfer Ffyrdd Cyfyngedig.
	5.	Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio polisiau a dogfennau canllaw perthnasol ac yn benodol ei ganllawiau ar Bennu Terfynau Cyflymder Lleol er mwyn cynghori awdurdodau lleol ar ddewis y terfyn cyflymder priodol yn sgil y ddeddfwriaeth ddiwygiedig.	Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad ar y broses o ddiwygio polisiau a dogfennau canllaw perthnasol, yn cynnwys Canllawiau Pennu Terfynau Cyflymder Lleol, ochr yn ochr ag ymgynghoriad ar leihau'r terfyn cyflymder cyffredinol ar Ffyrdd Cyfyngedig.
Eithriadau	6.	Dylai Trafnidiaeth Cymru ddatblygu a chymeradwyo ei adnodd GIS ar gyfer nodi eithriadau posibl i'r terfyn cyflymder diofyn cenedlaethol o 20mya ar ffyrdd cyfyngedig. Dylai'r adnodd hwn ystyried swyddogaethau Lleoliad a Symudiad pob rhan o stryd/ffordd. Dylid ei dreialu a'i fireinio drwy brosiect Aneddiadau peilot (gweler Argymhelliad 18).	Comisiynwyd Trafnidiaeth Cymru gan Lywodraeth Cymru i helpu'r Grŵp Tasglu i ddatblygu adnodd GIS, er mwyn datblygu proses eithriadau i'r terfyn cyflymder diofyn o 20mya. Bwriedir iddo barhau i weithio gyda Trafnidiaeth Cymru i ddatblygu'r adnodd GIS ymhellach a gweithio gydag awdurdodau lleol i gynnal astudiaethau peilot ar gyfer terfyn cyflymder cyffredinol o 20mya. Caiff hyn ei gyfuno â'r gwaith adfywio fel Trawsnewid

			Tref, sy'n mynd rhagddo gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd.
Gorfodi	7.	Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, yr Heddlu a GoSafe i gytuno ar y modd y dylid addasu'r drefn orfodi yn sgil cyflwyno terfynau cyflymder o 20mya yn eang.	Mae trafodaethau eisoes wedi mynd rhagddynt gyda Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i adolygu'r amcanion ar gyfer gorfodi drwy ddefnyddio camerâu. Bydd yn ymchwilio i'r rôl y gall prosesau plismona'r ffyrdd ei chwarae mewn perthynas â'r agenda llesiant ehangach, gan gynyddu cydlyniant cymunedol a galluogi mwy o bobl i gerdded a beicio.
	8.	Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau ei hymrwymiad i'w gwneud yn ofynnol i bob cerbyd modur newydd a werthir yn y DU gael teclyn Cymorth Cyflymder Deallus, yn unol â safonau ac amserlen yr UE, er gwaethaf ymadawiad y DU o'r UE.	Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau bod Llywodraeth y DU yn cadw'r gofyniad i declyn Cymorth Cyflymder Deallus (ISA) gael ei osod yn ddiodyn mewn ceir newydd er gwaethaf unrhyw newidiadau sy'n codi ar ôl gadael yr UE. Byddwn yn gweithio gyda'r Adran Drafnidiaeth a rhanddeiliaid eraill i sicrhau y gwneir y defnydd gorau o dechnoleg ar gyfer cyflwyno'r terfyn cyflymder o 20mya.

Peirianeg	9.	Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau dylunio ar gyfer awdurdodau lleol ar fesurau peirianeg nodweddiadol a all fod yn ofynnol i gefnogi'r gostyngiad mewn cyflymder traffig ar ffyrdd cyfyngedig.	Bydd Llywodraeth Cymru yn dechrau gweithio ar ganllawiau dylunio fel rhan o'r prosiect astudiaethau peilot ac yn cysylltu â datblygiadau gyda'r agenda Creu Lleoedd yn y dyfodol.
	10.	Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cronfa i gymunedau allu cynllunio a dylunio newidiadau cost isel i'w strydoedd lleol a rhoi'r newidiadau hynny ar waith er mwyn gwella lleoedd lleol, helpu i ddatblygu cydlyniant cymunedol cryfach a lleihau cyflymder traffig; a rhoi cymorth ac arweiniad hygyrch i'w helpu.	Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r modd y gellid defnyddio ffrydiau cyllid presennol at y diben hwn ac yn ystyried a oes angen cyllid ychwanegol.
Cyfathrebu a Hyrwyddo	11.	Dylai Llywodraeth Cymru ddylunio a chynnal strategaeth cyfathrebu a hyrwyddo effeithiol, ar y cyd ag awdurdodau lleol, er mwyn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd bod y terfyn cyflymder diodyn cenedlaethol yn lleihau i 20mya ac i annog pobl i gydymffurfio â hyn.	Bydd y cyngor a gaiff ei baratoi gan yr is-grŵp cyfathrebu a newid ymddygiad yn llywio ac yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaeth cyfathrebu a marchnata effeithiol ar gyfer y newid yn y terfyn cyflymder, a fydd hefyd yn defnyddio'r profiad diweddar a gafwyd mewn ymgyrchoedd newid ymddygiad cenedlaethol, fel rhoi

			organau a'r defnydd o fagiau plastig.
	12.	Dylai awdurdodau lleol seilio'r newidiadau arfaethedig i derfynau cyflymder lleol ar y mapiau a luniwyd gan adnodd GIS Trafnidiaeth Cymru (gweler Argymhelliad 6). Dylent gynnal ymgynghoriad effeithiol â phobl leol a rhanddeiliaid eraill, gan ganolbwyntio'n benodol ar y rhannau hynny o'r briffordd a nodwyd gan yr adnodd GIS fel eithriadau posibl i'r terfyn diofyn o 20mya ar ffyrdd cyfyngedig.	Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu pecyn cymorth ar gyfer awdurdodau lleol fel rhan o'r astudiaethau peilot. Caiff ei ddefnyddio ochr yn ochr ag ymgyrch Cymru gyfan er mwyn helpu i ymgysylltu â phob rhanddeiliad a'r cyhoedd.
	13.	Dylai Llywodraeth Cymru annog awdurdodau lleol, gweithredwyr trafndiaeth a chyrrff cyhoeddus a phreifat eraill i sicrhau bod gyrwyr eu cerbydau yn cadw at bob terfyn cyflymder drwy eu polisiau a'u systemau rheoli fflyd, yn cynnwys hyfforddiant gyrwyr a'r defnydd o dechnoleg berthnasol.	Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â gweithredwyr fflyd i archwilio'r syniad o gyflwyno ISA yn eu fflydoedd yn ôl-weithredol. Bydd hefyd yn gweithio gyda'r DVSA a'r Comisiynydd Traffig i annog gweithredwyr fflyd yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat i gadw at bob terfyn cyflymder.
Monitro a Gwerthuso	14.	Dylai awdurdodau lleol a'r Heddlu ddarparu data monitro fel mater o drefn, yn cynnwys ar gyflymder, anafusion a gwrthdrawiadau, ac	Bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu astudiaeth i benderfynu ar effeithiau cyflwyno'r terfyn cyflymder diofyn o 20mya yn genedlaethol.

		ansawdd aer i Lywodraeth Cymru mewn modd amserol er mwyn cyfrannu at y broses o werthuso effeithiau'r rhaglen 20mya genedlaethol.	Bydd hyn yn cynnwys casglu data ar gydymffurfiaeth, anafusion, teithio llesol, yn ogystal â'r effeithiau ar yr economi, yr amgylchedd ac iechyd. Caiff y rhain eu profi a'u mireinio fel rhan o'r astudiaethau peilot, a byddant yn parhau ar ôl iddynt gael eu rhoi ar waith am gyfnod o 5 mlynedd o leiaf
	15.	Dylai Llywodraeth Cymru gynnal astudiaeth monitro a gwerthuso fel y gellir asesu effaith ac effeithiolrwydd y terfyn cyflymder diofyn newydd. Dylid sefydlu hyn drwy'r prosiect Aneddiadau Peilot (gweler Argymhelliad 18).	Bydd y gwaith ar sefydlu'r prosiect Aneddiadau Peilot yn cychwyn cyn diwedd 2020.
	16.	Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu astudiaeth annibynnol, bum mlynedd ar ôl rhoi'r terfyn cyflymder diofyn cenedlaethol o 20mya ar waith ar ffyrdd cyfyngedig, er mwyn darparu asesiad o'r rhaglen o ran y canlyniadau a'r broses. Dylid cydnabod bod y rhaglen yn ymyriad mewn creu data sy'n bwysig yn rhyngwladol, nid dim ond ar gyfer Cymru.	Bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu astudiaeth a fydd yn defnyddio tystiolaeth a gasglwyd gan y prosiect Aneddiadau Peilot.

<p>Gweithredu a Rhaglennu</p>	<p>17.</p>	<p>Dylai Llywodraeth Cymru gyflawni'r cerrig milltir allweddol canlynol er mwyn cyflwyno terfyn cyflymder diofyn o 20mya ar ffyrdd cyfyngedig ledled Cymru erbyn mis Ebrill 2023:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyhoeddi Adroddiad y Tasglu – Gorffennaf 2020 • Datganiad Gweinidogol yn nodi'r bwriad i fwrw ymlaen a chynnal Pleidlais yn y Cyfarfod Llawn ar gyflwyno'r ddeddfwriaeth - Gorffennaf 2020 • Pasio Offeryn Statudol – Hydref 2021 • Dechrau'r Offeryn Statudol – Ebrill 2023 	<p>Bydd Llywodraeth Cymru yn ymdrechu i ddilyn y rhaglen weithredu a argymhellir fel y nodir yn yr adroddiad, yn amodol ar ymgynghoriad.</p>
	<p>18.</p>	<p>Dylai Llywodraeth Cymru wahodd awdurdodau lleol i fynegi diddordeb mewn bod yn rhan o brosiect Aneiddiadau peilot er mwyn dechrau'n gynnar ar y gwaith o ddatblygu a mireinio'r prosesau amrywiol sydd eu hangen i gyflwyno terfynau o 20mya mewn ardal eang ac i gasglu a choladu set data gynhwysfawr i werthuso effeithiau'r rhaglen 20mya genedlaethol.</p>	<p>Mae swyddogion eisoes wedi dechrau ar drafodaethau rhagarweiniol gyda nifer o awdurdodau lleol, i gymryd rhan yn y prosiect Aneiddiadau Peilot.</p>

	19.	Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Bwrdd Prosiect, gan ddefnyddio aelodau o'r Grŵp Tasglu ynghyd ag aelodau ychwanegol yn ôl yr angen, i oruchwyllo a thywys y rhaglen cyn ac ar ôl cyflwyno'r terfyn cyflymder o 20mya, yn cynnwys am gyfnod gwerthuso ôl-ymyriad o 5 mlynedd.	Mae Llywodraeth Cymru yn sefydlu Bwrdd Prosiect a fydd yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol, gyda'r adnodd angenrheidiol i ddatblygu'r rhaglen weithredu 20mya, gyda'r bwriad y daw'r terfyn cyflymder diodyn o 20mya yn weithredol erbyn mis Ebrill 2023. Bydd y gwaith o werthuso'r ymyriad yn parhau am gyfnod o 5 mlynedd y tu hwnt i'r dyddiad gweithredu.
	20.	Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Tîm Prosiect penodol cyn gynted â phosibl i arwain a chydlynu'r holl dasgau angenrheidiol sy'n ofynnol i gyflwyno terfyn cyflymder diodyn cenedlaethol o 20mya ar ffyrdd cyfyngedig.	Bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu Tîm Prosiect i ddatblygu'r rhaglen weithredu 20mya i gyflwyno'r terfyn cyflymder diodyn o 20mya erbyn mis Ebrill 2023.
	21.	Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod rhagor o adnoddau ar gael i awdurdodau lleol i'w galluogi i ymgynghori ar newidiadau eang i derfynau cyflymder lleol, eu dylunio a'u rhoi ar waith ynghyd â darparu data monitro.	Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu'r adnoddau ychwanegol fydd yn ofynnol i alluogi awdurdodau lleol i roi'r newidiadau ar waith ac i ddarparu unrhyw ddata monitro ychwanegol.

